



Ein cyf/Our ref MA/VG/1600/21

Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

22 Ebrill 2021

Annwyl Elin,

### **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er gywbodaeth ichi.

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020.

O 15 Chwefror, cyflwynodd Llywodraeth Cymru waharddiad ar deithwyr sy'n cyrraedd Cymru os ydynt wedi bod mewn "gwlad rhestr goch" yn y 10 niwrnod blaenorol. Rhaid iddynt gyrraedd un o'r pyrth mynediad dynodedig yn Lloegr (neu'r Alban) ac aros yno o dan amodau ynysu rheoledig am 10 niwrnod cyn cael teithio i Gymru. Hefyd, ar gyfer y rheini sy'n cyrraedd o "wledydd ar y rhestr oren", cyfyngwyd ar yr esemptiadau rhag y gofynion ynysu fel bod gofyn i berson ynysu am 10 niwrnod gan amlaf ond y caiff adael y man ynysu am gyfnod cyfyngedig i weithio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu India at y rhestr goch o wledydd. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn caniatáu i gludwyr gwaed, meinweoedd ac organau dynol sydd wedi bod mewn gwlad sydd ar y rhestr goch ddod i mewn i Gymru ac yn caniatáu i weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd sydd wedi bod mewn gwlad sydd ar y rhestr goch ddod i mewn i Gymru ac ynysu yng Nghymru.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd; a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Vaughan Gething AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services